O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U

W E L S H  S T A T U T O R Y  I N S T R U M E N T S

# 2023 Rhif (Cy. )

# 2023 No. (W. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Rhwng Bwlch Nant yr Arian a Phonterwyd, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023

The A44 Trunk Road (Between Bwlch Nant yr Arian and Ponterwyd, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Medi 2023* |
| *Yn dod i rym* | *25 Medi 2023* |

| | |
|---|---|
| *Made* | *18 September 2023* |
| *Coming into force* | *25 September 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A44, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Rhwng Bwlch Nant yr Arian a Phonterwyd, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Medi 2023.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 25 Medi 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A44 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A44 Trunk Road (Between Bwlch Nant yr Arian and Ponterwyd, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2023 and this Order comes into force on 25 September 2023.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the length of the A44 Newtown to Aberystwyth trunk road;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (*“the trunk road”*) yw’r darn o gefnffordd yr A44 y Drenewydd i Aberystwyth.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 190 o fetrau i’r gorllewin o fyneddfa Canolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian hyd at bwynt 400 metr i’r gogledd-orllewin o ‘Red Kite Café’ ger Ponterwyd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Medi 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 25 September 2023 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road that extends from a point 190 metres west of the Bwlch Nant yr Arian Visitor Centre access to a point 400 metres north west of the ‘Red Kite Café’ near Ponterwyd.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 18 September 2023

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government